# Cefnogi unigolion i ymgymryd â gweithdrefnau gofal iechyd

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi’r gofynion wrth gefnogi unigolion i ymgymryd â gweithdrefnau gofal iechyd. Mae hyn yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth ag unigolion i baratoi ar gyfer y gweithdrefnau, ac ymgymryd â nhw, yn ogystal â dadansoddi ac adrodd ynghylch unrhyw newidiadau.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. nodi a chytuno ar rolau a chyfrifoldebau eich hun ac eraill i gefnogi unigolion gyda gweithdrefnau gofal iechyd
2. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i gadarnhau beth maent yn gallu ei wneud yn annibynnol a pha gymorth sydd ei angen
3. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i gytuno ar sut yr ymgymerir â'r gweithdrefnau a sut yr adroddir amdanynt, yn unol â dewisiadau ac anghenion, a gofynion gweithdrefnau
4. helpu unigolion ac eraill i nodi a chael gafael ar yr wybodaeth, yr adnoddau a'r offer sydd eu hangen arnynt i ymgymryd â gweithdrefnau
5. sicrhau bod dulliau atal a rheoli heintiau, ac offer diogelu personol, yn cael eu defnyddio
6. cefnogi unigolion ac eraill i nodi amser a lle addas ar gyfer gweithdrefnau
7. cefnogi unigolion ac eraill i baratoi adnoddau, offer ac amgylchedd
8. annog a chefnogi annibyniaeth unigolion i ymgymryd â gweithdrefnau, a defnyddio technegau cywir
9. cefnogi unigolion ac eraill i ddadansoddi canfyddiadau gweithdrefnau a chymryd y camau gofynnol
10. gwneud yn siŵr bod adnoddau ac offer sydd wedi cael eu defnyddio yn cael eu gwaredu, neu eu glanhau a'u storio
11. cyfrannu at gofnodion ac adroddiadau sydd eu hangen i gefnogi unigolion i ymgymryd â gweithdrefnau gofal iechyd
12. myfyrio ar sut y gwnaethoch gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau i gefnogi'r unigolyn i ymgymryd â gweithdrefnau gofal iechyd, gydag adborth gan eraill

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut mae cael gafael ar wybodaeth am gefnogi unigolion â gweithdrefnau gofal iechyd, a’i hadolygu
2. y mathau o gyflyrau sy'n gofyn am weithdrefnau gofal iechyd
3. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar y cymorth mae unigolion ei angen i ymgymryd â gweithdrefnau gofal iechyd
4. dylanwad diwylliant a chefndir ar weithdrefnau monitro gofal iechyd ar gyfer unigolion
5. y mathau o adnoddau ac offer a ddefnyddir mewn gweithdrefnau gofal iechyd, a phwysigrwydd arferion cynaliadwy
6. sut mae cael gafael ar wybodaeth, adnoddau, offer ac amgylchedd addas i’r unigolyn ymgymryd â'r weithdrefn, a pham fod hyn yn bwysig
7. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma i gefnogi unigolion â gweithdrefnau gofal iechyd
8. pam mae'n bwysig dilyn cyfarwyddiadau ar gyfer gweithdrefnau gofal iechyd
9. sut mae annog a chefnogi annibyniaeth unigolion â gweithdrefnau gofal iechyd
10. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth gefnogi unigolion â gweithdrefnau gofal iechyd
11. sut mae helpu rheoleiddio emosiynol yn ystod gweithdrefnau gofal iechyd
12. sut mae dadansoddi’r newidiadau a nodwyd yn ystod gweithdrefnau gofal iechyd
13. sut mae gwaredu gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus yn ddiogel
14. sut mae sicrhau hylendid dwylo ac atal a rheoli heintiau yn effeithiol yn ystod gweithdrefnau gofal iechyd
15. y cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer gweithdrefnau gofal iechyd
16. y mathau o ddyfeisiau ac adnoddau digidol a all gefnogi unigolion â gweithdrefnau gofal iechyd
17. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a’r canllawiau perthnasol ar gyfer cefnogi unigolion i ymgymryd â gweithdrefnau gofal iechyd
18. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth gefnogi unigolion â gweithdrefnau gofal iechyd
19. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill i gefnogi unigolion i ymgymryd â gweithdrefnau gofal iechyd

20. sut mae ymateb i faterion a phryderon a allai godi yn ystod gweithdrefnau gofal iechyd
21. sut mae eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth gefnogi unigolion â gweithdrefnau gofal iechyd, a sut i fynd i'r afael â hyn
22. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth gefnogi unigolion â gweithdrefnau gofal iechyd

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

Cefnogi unigolion i ymgymryd â gweithdrefnau gofal iechyd

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD224 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Gofal, Gweithdrefnau, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |